Cofnodion **Cyfarfod Cyngor Cymuned Penbryn** a gynhaliwyd nos Fawrth, Tachwedd 7ed yn Neuadd Goffa Penbryn/*Minutes of* **Penbryn Community Council Meeting** *held on Tuesday, November 7th at Penbryn Memorial Hall.*

Yn bresennol/*Present* : Cynghorwyr/*Councillors* Caerwyn Owen, William Anwyl, Gareth Evans, Teifi Davies, Walwyn Jones, Delfryn Owens (Cadeirydd/*Chair),* Gwyn James.

**1 <u>Ymddiheuriadau/Apologies</u>**
Cynghorwyr/*Councillors* Jonathan Rees, Barri Davies, Melva Phillips, Huw Davies.

**2 <u>Materion Personol/Personal Matters</u>**
Mae Jonathan wedi dod yn dad-cu unwaith eto.
*Jonathan has recently become a grandfather again.*

**3 <u>Cofnodion Cyfarfod Misol/Monthly Meeting Minutes – Hydref/October 2023</u>**
Cynigiwyd gan Gwyn eu bod yn gywir a'i eilio gan Caerwyn.
*Motioned by Gwyn to be correct and seconded by Caerwyn.*

**4 <u>Materion yn codi/Matters Arising</u>**

i) Gwefan y Cyngor/*Council Website*
Cofnodwyd bod Graham Jones wedi derbyn deunydd, sef lluniau o bentrefi'r plwyf, er mwyn cychwyn y gwaith o osod testun a fydd yn sylfaen i weddill y gwaith o ddatblygu'r wefan. Gyda'r sylfaen hon, gellir ychwanegu llawer mwy a ddaw yn y dyfodol.
*It was noted that Graham Jones had received the initial material which allows him to establish the required text necessary to develop the website. These photographs of our community villages will lead to further additions to our website.*

ii) Cyfrif Banc/*Bank Account*
Y newyddion da yw fod gennym gyfrif banc cwbl weithredol gyda'r llyfrau bancio angenrheidiol ar gyfer gweithredu'n llawn fel Cyngor Cymuned. Yn sgil hyn, yr ydym eisoes wedi dechrau talu'r mwyafrif helaeth o'n hol-daliadau gan ganiatáu i ni ddechrau gyda llechen lân.
The good news is that we have a fully operational bank account along with the appropriate banking books. In its wake, this will allow us to complete the payment of our overdue payments and start with a clean slate.

iii) Elin Jones a Bwcabws/*Elin Jones and Bwcabws*
Anfonwyd gohebiaeth ar ran Cyngor Cymuned Penbryn er mwyn mynegi ein cefnogaeth i'r ymgyrch gyffredinol i geisio achub y gwasanaeth bws hanfodol hwn. Ychwanegwyd hefyd ein pryder ynghylch dyfodol y Cardi Bach.
*Correspondence was sent on behalf of Penbryn Community Council to Elin Jones MS in order to reaffirm our support for the campaign to save the Bwcabws service which is so vital to rural communities. It also noted our concern for the future of the Cardi Bach service.*

iv) Clic a Chyffordd Brynhoffnant/*Clic and Brynhoffnant Junction*
Ymateb y Cyngor Sir oedd nad oedd unrhyw bryder ynghylch arwyddo'r gyffordd hon a bod yr arwyddion ar yr uchder cywir. Fodd bynnag, ymateb yr etholwr a gododd y

pwynt, oedd ei bod hi o'r farn bod arwyddion pellach wedi'u gosod yno yn y cyfamser.
*The County Council stated that they had no concern regarding the signage at this Junction, and that they were at a standard height and angle. However, the person who raised the issue was of the opinion that additional signage had been added in the meantime.*

**5 <u>Cyllid/Finance</u>**

i) Cyfarfod y Clerc a'r Llofnodwyr/*Meeting of Clerk and Signatories*
Cynhaliwyd y cyfarfod ar Hydref 19eg er mwyn dechrau talu llawer o'r ol-daliadau sydd yn ddyledus i unigolion a mudiadau. Cyn dechrau ad-dalu pobl, nodwyd bod gennym gyfanswm o £25503.15 yn y cyfrif. Wedi i ni orffen y taliadau yr oeddem bron â chwblhau'r gwaith angenrheidiol, gan wario cyfanswm o £15805.76.
*The meeting was held on October 19th in order to commence making our overdue payments to individuals and societies. It was noted at the outset, that the total amount in the account was £25503.15. At the end, we had almost completed paying our overdue payments, having spent a total of £15805.76.*

ii) Gweddill y Taliadau/*Outstanding Payments*
Barn unfrydol yr aelodau oedd y dylid cymeradwyo'r taliadau sy'n weddill.
*It was unanimously agreed to pay the remaining contributions.*

| | |
|---|---|
| Urdd Gobaith Cymru | £100 |
| Cerebral Paulsy | £100 |
| Eisteddfod Rhydlewis | £75 |
| Cruse Ceredigion | £100 |

Ambiwlans Awyr Cymru/*Wales Air Ambulance* £700 (Cyfraniad 2 Flynedd/*2 year contribution)*

iii) Praesept/*Precept* 2024/25
Gyda'r adeg yn dynesu i osod cyfanswm y Praesept ar gyfer y flwyddyn nesaf, anogwyd yr aelodau i ystyried pa gostau amlwg neu annisgwyl all godi yn ystod y flwyddyn a ddaw. Gofynnwyd hefyd a oedd ganddynt gynlluniau ar gyfer datblygu adnoddau'r gymuned yn y dyfodol. Cytunwyd i drafod y materion hyn yn fanylach yn ystod y cyfarfod nesaf.
*With the setting of Precept 2024/25 fast approaching, members were asked to consider any expected or unexpected costs next year. They were also asked whether they had any proposals to develop any community resources in the future. Agreed unanimously for further discussions next month.*

**6 <u>Cynllunio/Planning</u>**

i) A230753 Fronwen, Sarnau Demolition of existing conservatory, erection of an extension and front porch.
DIM GWRTHWYNEBIAD

ii) A230729 Fronlwyd, Llangrannog Erection of dwelling, agricultural shed and associated works on site of former/Abandoned dwelling.
DIM GWRTHWYNEBIAD (gyda Gwyn James yn datgan diddordeb/ Gwyn James declaring interest)

**7 <u>Gohebiaeth/Correspondence</u>**

i) Maes Chwarae Brynhoffnant *Playing Field*

Yn dilyn gohebiaeth oddi wrth swyddfa Ben Lake AS, gofynnwyd i Gwyn James am ei gyngor. Dywedodd nad oedd y Cyngor Sir na'r Cyngor Cymuned mewn modd i gyllido'r fath fenter. Rhai o'r anawsterau a nodwyd oedd cynnal a chadw ac yswiriant. Awgrymwyd hefyd fod cyfleusterau o'r fath eisoes yn bod ar dir Ysgol Gymunedol T Llew Jones. Yr argymhelliad oedd y gallai Ben Lake ohebu â'r Awdurdod Addysg er mwyn gweld a ellir ymestyn eu defnydd i'r gymuned gyfan. Yr ail awgrym oedd y gellir ffurfio pwyllgor lleol i geisio sefydlu maes chwarae yn y gymuned.

*Following correspondence from Ben Lake MP's office, Gwyn James was asked to enlighten us. He stated that neither the County Council nor the Community Council could finance such a venture. Some of the difficulties would be maintenance and insurance costs.It was suggested that community use could be made of the resources at Ysgol Gymunedol T Llew Jones. It was proposed that Ben Lake corresponds with the Education Department to explore that possibility. The second suggestion was that they set up a local committee to try to establish a community playing field.*

**8 Unrhyw Fater Arall/Any Other Business**

i) Diogelwch yr A487/*Road Safety on the A487*

Lleisiodd Teifi a Caerwyn bryder am nifer o fân ddamweiniau a digwyddiadau sydd wedi digwydd yn ddiweddar rhwng Tanygroes a Sarnau. Yr ydym fel Cyngor Cymuned eisoes wedi gohebu â'r Asiantaeth ynghylch diogelwch y ffordd hon. Yr oedd llawer o'r aelodau yn parhau i alw am gyfarfod swyddogol gyda swyddogion diogelwch yr Asiantaeth, er mwyn trafod diogelwch yr A487. Cytunwyd y byddwn yn gohebu â'rAsiantaeth eto  er mwyn ceisio trefnu cyfarfod.

*Caerwyn and Teifi expressed concern at the number of minor accidents that have occurred recently between Tanygroes and Sarnau. The Council has already corresponded with the Trunk Road Agency regarding road safety. Many of the members continually asked for a formal meeting with the Agency to discuss safety issues. It was agreed to correspond once more to ask for such a meeting.*

**9 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf/Date of Next Meeting**

Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fawrth, Rhagfyr 5ed 2023.

*Next Meeting will be held on Tuesday, December 5th 2023.*